

Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol?

Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 23

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar gyfweiliadau'r Arolwg Cenedlaethol a gynhaliwyd yn 2021-22. Mae'n rhoi diweddariad o [ddadansoddiad blaenorol yn seiliedig ar ganlyniadau 2018-19](#). Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg parhaus ar raddfa fawr a gynhelir drwy hapsampl o bobl ym mhob rhan o Gymru. Cyn i'r pandemig Covid-19 (coronafeirws) ddechrau ym mis Mawrth 2020, roedd yr arolwg yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb yng nghartrefi pobl; ers mis Ebrill 2020, mae'n cael ei gynnal dros y ffôn (gydag adran ar-lein ar gyfer rhai ymatebwyr). Oherwydd y gwahaniaeth yn y dull, a newidiadau posibl oherwydd y pandemig, dylid bod yn ofalus wrth gymharu'n uniongyrchol â chanlyniadau blynyddoedd blaenorol.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu rhai ffactorau sy'n gysylltiedig â theimladau pobl ynghylch a oedd modd iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Mae [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) yn mesur i ba raddau y mae unigolyn yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fy ardal leol" yn seiliedig ar raddfa bum pwynt, a chaiff pobl sy'n ateb naill ai 'tueddu i gytuno' neu 'cytuno'n gryf' eu cofnodi fel rhai sy'n cytuno.

Canfyddiadau allweddol

Gan gadw ffactorau eraill yn gyson¹, canfuwyd bod cysylltiad rhwng y ffactorau isod a phobl yn teimlo y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol:

- Teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae eu cynghorydd lleol yn ei wneud dros eu cymuned.
- Cytuno bod y cynghorydd lleol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol.
- Teimlo'n fodlon â'r gwasanaethau a'r cyfleusterau lleol sydd ar gael.
- Bod mewn iechyd da.
- Byw mewn llety preifat ar rent.

Mae ffactorau eraill sydd wedi'u cynnwys yn ein dadansoddiad, y canfuwyd nad oes cysylltiad rhyngddynt a phobl yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, wedi'u rhestru yn

¹ Ar gyfer y dadansoddiad hwn, rydym wedi rheoli ar gyfer ystod o ffactorau fel y gellir edrych arnynt yn annibynnol hyd yn oed os ydynt yn gysylltiedig (e.e. iechyd cyffredinol ac oedran), y cysylltiad rhwng pob ffactor a chanran y bobl sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.

Adran 5. Fel yn achos pob dadansoddiad o'r math hwn, ni allwn briodoli achos ac effaith na chaniatáu ar gyfer ffactorau na chaiff eu mesur yn yr arolwg.

Cynnwys


1.	Y cefndir	4
2.	Y cwestiwn a ddefnyddir yn yr Arolwg Cenedlaethol.....	4
3.	Y dull dadansoddi	4
4.	Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â themlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol	5
5.	Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â themlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol	9
6.	Crynodeb ac argymhellion ar gyfer ymchwil pellach	10

1. Y cefndir

Nod [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am faterion a thargedau hirdymor, gweithio'n well gyda chymunedau a rhanddeiliaid, a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig a chydlynol wrth wneud penderfyniadau. Er mwyn sicrhau bod y weledigaeth hon yn cael ei chyflawni, cyflwynodd y Ddeddf saith nod llesiant² (Ffigur 1).

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod [dangosyddion cenedlaethol](#) sy'n mesur cyflawniad yn erbyn y nodau llesiant. Mae [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) yn casglu gwybodaeth ar gyfer 15 o'r 46 dangosydd cenedlaethol. Roedd yr arolwg yn 2021-22 yn cynnwys cyfweiliadau ffôn gyda hapsampl o fwy na 12,000 o bobl ar draws Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar [Ddangosydd Cenedlaethol 23](#): 'Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol'.



Ffigur 1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: saith nod llesiant².

2. Y cwestiwn a ddefnyddir yn yr Arolwg Cenedlaethol

Casglwyd gwybodaeth yn ymwneud â Dangosydd Cenedlaethol 23 drwy ofyn i ymatebwyr yr Arolwg Cenedlaethol a oeddent yn teimlo y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch eu hardal leol gan ddefnyddio graddfa Likert bum pwynt yn amrywio o '1 = cytuno'n gryf' i '5 = anghytuno'n gryf'. Ar gyfer y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn, cafodd yr ymatebwyr a atebodd 'cytuno'n gryf' neu 'tueddu i gytuno' eu grwpio gyda'i gilydd. Cafodd yr ymatebwyr a atebodd 'anghytuno'n gryf', 'tueddu i anghytuno', neu 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' eu grwpio gyda'i gilydd hefyd.

Yn gyffredinol, mae 30% o oedolion yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Mae hyn yn gyson â'r canlyniadau a ganfuwyd yn 2020-21 a 2018-19.

3. Y dull dadansoddi

Er mwyn cael dealltwriaeth glir o sut mae ffactorau penodol yn cyfrannu at allu pobl i nodi eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, defnyddiwyd techneg ystadegol³ i archwilio'r cysylltiad⁴ rhwng pob ffactor a theimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol. Mae cadw pob ffactor arall yn gyson (neu reoli ar gyfer ffactorau eraill, fel y'i gelwir hefyd) yn bwysig oherwydd

² Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion, sydd i'w gweld [ar-lein](#).

³ Gelwir y dechneg hon yn atchweliad logistaidd. Ceir rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn yr [adroddiad methodoleg atchweliad a'r adroddiad technegol](#).

⁴ Er y gall y dadansoddiad hwn ddweud wrthym am y tebygolrwydd o berthynas rhwng ffactorau, ni all ddweud wrthym am berthynas achosol (e.e. byddai'n anghywir dweud bod teimlo'n dda o ran eu hiechyd yn achosi i bobl deimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol).

ei fod yn caniatáu inni edrych ar bob ffactor rhagfynegi yn annibynnol (h.y. sicrhau nad yw'r effaith yr ydym yn ei mesur yn cael ei dylanwadu gan ffactorau allanol). Gallwn wedyn gael syniad llawer cliriach o sut mae un ffactor yn cysylltu â theimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol, heb ddylanwad ffactorau eraill.

Cymhlethdod y berthynas rhwng ffactorau

Er mwyn deall y canlyniadau hyn, ni allwn fod yn sicr bob amser ynghylch pa ffactorau sy'n gysylltiedig â, ac sy'n cael eu heffeithio gan deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol. Ar gyfer rhai ffactorau mae'r berthynas yn glir ar sail gwybodaeth flaenorol, ond ar gyfer ffactorau eraill nid yw'r berthynas hon mor amlwg⁵.

Dehongli'r canlyniadau

Mae'r holl ffactorau a gyflwynir yn y siartiau yn yr adroddiad hwn yn rhagfynegwyr ystadegol arwyddocaol o bobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol fel y profwyd gan y model atchweliad a ddewiswyd gennym. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio 'ffiniau rhagfynegol' – a gyflwynir fel canrannau (%) – i ddangos tebygolrwydd perthynas rhwng pob ffactor (gan gadw ffactorau eraill yn gyson) a'r newidyn dibynnol (pobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol). Mae'r canlyniadau'n dangos o fewn ffactor benodol (e.e. rhyw) y tebygolrwydd y bydd un grŵp 'cyfartalog' o bobl sydd â nodwedd gyffredin (e.e. menywod) yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol, o'i gymharu â grŵp 'cyfartalog' arall o bobl sydd â nodwedd gyffredin wahanol (e.e. dynion). Mae bariau gwallau ar y siartiau yn dangos y cyfwng hyder o 95% o'r ffiniau rhagfynegol ar gyfer pob grŵp. Mae bariau gwallau sy'n gorgyffwrdd yn golygu, er bod ffactor yn rhagfynegydd arwyddocaol bod pobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol, nid yw'n gwbl glir pa grŵp o fewn y ffactor yw'r mwyaf rhagfynegadwy.

4. Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â theimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol


Ar y cyfan, roedd 89% o ymatebwyr yr Arolwg Cenedlaethol yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol. Mae'r ffigurau isod yn dangos yr holl ffactorau unigol (tra'n dal ffactorau eraill yn gyson) y canfuwyd bod ganddynt gysylltiad â phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol. O fewn pob ffactor, amlygir y grŵp sydd â'r tebygolrwydd (canran) uchaf o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol mewn glas golau. Hefyd, gellir grwpio'r ffactorau esboniadol yn themâu a ddangosir gan yr is-benawdau.

⁵ Gall y berthynas hon fod hyd yn oed yn fwy cymhleth, gan y gallai fod ffactorau eraill nad ydym wedi eu hystyried (ac nad ydynt ar gael o'r Arolwg Cenedlaethol) a allai fod yn gysylltiedig â theimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol a theimlo'n anniogel.

Demograffeg


Grŵp oedran

Mae pobl rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol o deimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol nag unrhyw grŵp oedran arall.




Ethnigrwydd

Roedd pobl o ethnigrwydd heblaw 'gwyn – Prydeinig' yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol.



Cymhwyster addysgol uchaf


Roedd pobl â chymwysterau ar lefel gradd ac uwch yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau na phobl â chymwysterau TGAU a chymwysterau cyfatebol.



Llesiant

Iechyd cyffredinol


Pobl a nododd fod eu hiechyd cyffredinol yn 'Dda' neu'n 'Dda iawn' oedd y rhai mwyaf tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.



Cydllyniant Cymunedol


A oeddent o'r farn fod tipio anghyfreithlon yn broblem yn yr ardal leol

Roedd pobl oedd o'r farn fod tipio anghyfreithlon yn broblem fawr yn yr ardal leol yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol, o'i gymharu â'r rhai nad oedd yn ystyried bod tipio anghyfreithlon yn broblem yn eu hardal leol.




A oeddent o'r farn fod taflu sbwriel yn broblem yn yr ardal leol

Roedd pobl oedd o'r farn nad oedd taflu sbwriel 'yn broblem o gwbl' yn eu hardal leol yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol, o'u cymharu â'r rhai oedd yn credu bod sbwriel yn 'broblem fawr' yn eu hardal leol.




A oeddent yn teimlo ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol

Er bod perthynas rhwng **ymdeimlad o berthyn** a'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau, mae'r bariau gwallau yn gorgyffwrdd gan ddangos dim gwahaniaeth sylweddol rhwng categorïau.



A oeddent yn teimlo bod pobl o wahanol gefndiroedd yn eu hardal leol yn cyd-dynnu'n dda


Er bod perthynas yn bodoli rhwng pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu a'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau, mae'r bariau gwallau yn gorgyffwrdd gan ddangos dim gwahaniaeth sylweddol rhwng categorïau.



Democratiaeth leol


A oedd ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn mae eu cynghorydd lleol yn ei wneud

Pobl oedd yn cytuno'n gryf fod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn mae eu cynghorydd lleol yn ei wneud dros eu cymuned leol oedd y rhai mwyaf tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.



A oeddent yn teimlo bod y cynghorydd lleol yn gweithio'n agos â'r gymuned leol


Pobl a oedd yn cytuno bod eu cynghorydd lleol yn gweithio'n agos â'r gymuned leol oedd y rhai mwyaf tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol



Ffactorau Economaidd

Deiliadaeth


Roedd pobl sy'n byw mewn cartrefi rhent preifat neu dai cymdeithasol yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol o'u cymharu â pherchen-feddianwyr.



Yr Ardal Leol

Bodddhad â gwasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael yn yr ardal leol


Pobl oedd yn fodlon iawn â'u gwasanaethau a'u cyfleusterau lleol oedd y rhai mwyaf tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.



Awdurdod Lleol

Awdurdod Lleol

Roedd pobl a oedd yn byw yn Sir Ddinbych, Gwynedd a Phen-y-bont ar Ogwr yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol o'u cymharu â phobl ym Mhowys, Blaenau Gwent a Sir y Fflint.



5. Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â theimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol

Yn y dadansoddiad hwn, cynhwyswyd ffactorau eraill yn ein model atchweliad, ond ni ddaethom o hyd i gysylltiad rhwng y ffactorau canlynol a phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol:

- Rhyw.
- Crefydd.
- Statws economaidd.
- Statws priodasol.
- A oes ganddynt gyflwr hirdymor sy'n cyfyngu.
- A ydynt o'r farn fod baw ci yn broblem yn yr ardal leol.
- A ydynt o'r farn fod graffiti fel problem yn yr ardal leol.
- A ydynt yn ddifreintiedig yn faterol.
- Amddifadedd yr ardal (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).
- Dosbarthiad trefol/gwledig.
- A ydynt yn teimlo ymdeimlad o gymuned.
- Boddhad cyffredinol â'r ardal leol.
- Boddhad â'r gallu i gyrraedd at wasanaethau a chyfleusterau lleol.
- A ydynt yn teimlo bod pobl yn trin ei gilydd â pharch yn yr ardal leol.
- Boddhad cyffredinol â bywyd.
- Gallu i siarad Cymraeg.
- A oes ganddynt blant ai peidio.

6. Crynodeb ac argymhellion ar gyfer ymchwil pellach

I grynhoi, rydym wedi darparu dadansoddiad o ffactorau (a themâu cyffredinol) sy'n gysylltiedig â Dangosydd Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol 23: 'Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol'. Ar y cyfan, daeth saith thema ganolog i'r amlwg o'n dadansoddiad:

1. Demograffeg.
2. Llesiant.
3. Cydlyniant Cymunedol.
4. Democratiaeth Leol.
5. Ffactorau Economaidd.
6. Yr Ardal Leol.
7. Awdurdod Lleol.

Mae'r berthynas rhwng ffactorau penodol a phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol yn debygol o fod yn fwy cymhleth nag yr awgrymir yn y dadansoddiad hwn a bod ffactorau eraill nad ydynt yn cael eu mesur yn yr Arolwg Cenedlaethol yn dylanwadu ar hyn. Yn ogystal, mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r ffactorau cysylltiedig a drafodwyd gyntaf yn adroddiad cynharach [2018-19](#) yn parhau i fod yn gysylltiedig yn dilyn dadansoddiad o ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2021-22. Arhosodd y modelau atchweliad a wnaed ar gyfer y ddwy flynedd yr un fath, yn fras, ond oherwydd bod cynnwys yr arolwg yn newid, nid oedd rhai newidynnau a gynhwyswyd yn nadansoddiad 2018-19 yn bresennol yn 2021-22, ac i'r gwrthwyneb. Er mwyn ymchwilio ymhellach i'r cysylltiadau hyn, gallai dulliau ymchwil ychwanegol gynnwys rhagor o ymchwiliadau ar raddfa fach sy'n cynnwys dulliau ansoddol⁶ neu ddulliau cymysg⁷.

⁶ Defnyddir [ymchwil ansoddol](#) yn aml i ddeall rhesymau, barn, a chymhellion sylfaenol pobl i ddatgelu tueddiadau ym meddyliau a barn pobl er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth o fater penodol. Yn aml, mae dulliau casglu data ansoddol yn rhai ar raddfa fach ac maent yn casglu data nad ydynt yn rhifiadol drwy ddefnyddio technegau megis cyfweiliadau a grwpiau ffocws. Ar y llaw arall, mae ymchwil feintiol yn ceisio deall problem drwy gasglu data rhifiadol y gellir eu defnyddio mewn dadansoddi ystadegol, a hynny'n aml i gynhyrchu canlyniadau cyffredinol ar gyfer sampl fawr o boblogaeth (e.e. agweddau, ymddygiadau, a barn). Er enghraifft, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth fel hyn yn bennaf.

⁷ Mae '[dulliau cymysg](#)' yn ddull o ymchwilio sy'n casglu ac yn dadansoddi data ansoddol a meintiol o fewn yr un astudaeth. Wrth i lunwyr polisi, ymarferwyr, ac eraill mewn meysydd cymhwysol ymdrechu i gynhyrchu ymchwil hyddysg sy'n seiliedig ar sawl math o dystiolaeth (megis llesiant amlweddol cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol), gall ymchwil dulliau cymysg fod yn ffordd dda o archwilio'r sefyllfaoedd cymdeithasol cymhleth hyn.

Awdur yr adroddiad: Luke Naylor



Safbwyntiau'r ymchwilyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm yr Arolwg Cenedlaethol
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: arolygon@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

OGI © Hawlfaint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-702-5